OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 194 (Cy.29)

TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS I DEITHWYR, CYMRU

Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - - *2 Chwefror 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *3 Chwefror 2010*
Yn dod i rym - - *1 Ebrill 2010*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 94(4) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985(**1**) ac adran 146 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**2**), mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) (Diwygio) 2010 a daw i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) 2002

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) 2002(**3**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn erthygl 3(1)(a)(i), yn lle "adran 509 o Ddeddf Addysg 1996" rhodder "adrannau 3, 4 a 6 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008".

(**1**) 1985 p.67. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**2**) 2000 p.38. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2002/2023 (Cy.207).